# Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig
## Negeseuon Allweddol a Chamau Gweithredu

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| **Teitl y Cyfarfod** | Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig | | **Dyddiad** | 30.11.2017 | |
| **Rhif y Cyfarfod** | 8 | **Amser Dechrau** | 11:20 | **Amser Gorffen** | 14:30 |
| **Yn bresennol** | Graham Rees (Llywodraeth Cymru - Cadeirydd), Louise George (Llywodraeth Cymru), Richard Lowcock James (Llywodraeth Cymru), Eve Read (Dŵr Cymru), Alison Palmer Hargrave, Trevor Theobald (Cyngor Sir Benfro), Michel Regelous (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro), Jonathan Monk (Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau), Helen Bloomfield (Cyfoeth Naturiol Cymru), Maggie Hatton-Ellis (Cyfoeth Naturiol Cymru), Rhian Jardine (Cyfoeth Naturiol Cymru), Lindsey Powles (Llywodraeth Cymru). | | | | |
| **Cynhadledd ffôn,** | Rosie Kelly (Ystad y Goron) | | | | |
| **Ymddiheuriadau** | Tegryn Jones (Awdurdod Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro) | | | | |

| | **Eitem ar yr Agenda** |
|---|---|
| 1. | Croeso, Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau |
| 2. | Pontio'r UE (diweddariad llafar) |
| 3. | Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol |
| 4. | Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (papur 2):<br>• Datblygu'r Cynllun<br>• Diweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru: Prosiect Gwella Cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig |
| 5. | Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru i Wella Adroddiadau Cyflwr ar Lefel Safle (diweddariad llafar):<br>• Adroddiadau dangosol cyflwr safle ar lefel nodweddion<br>• Camau nesaf |
| 6. | Adolygiad o gylch gorchwyl y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (papur 3) |
| 7. | Unrhyw Fater Arall |

DRAFT

## Cyflwyniad

Mae’r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn cydgysylltu’r gwaith o reoli pob Ardal Forol Warchodedig yn strategol ym moroedd Cymru. Mae’r Grŵp yn darparu cyngor, arweiniad a chyfeiriad cyfunol i awdurdodau sy’n cyfrannu at ddarparu camau rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig. Mae’n hyrwyddo rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn effeithiol gyda’r nod o godi proffil rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig a chynyddu nifer yr awdurdodau rheoli a rhanddeiliaid ehangach sy’n mabwysiadu’r dull ledled Cymru.

Mae aelodaeth y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yn dod o awdurdodau rheoli allweddol yng Nghymru, fel y diffinnir gan Reoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017.

Cynhaliodd y Grŵp Llywio ei wythfed cyfarfod ar 30 Tachwedd yn Swyddfeydd Llywodraeth Cymru yn Aberystwyth. Mae negeseuon allweddol a chamau gweithredu a ddeilliodd o’r cyfarfod i’w gweld yn y ddogfen hon. Mae aelodau’r Grŵp Llywio yn gyfrifol am ddosbarthu negeseuon cyson gyda’u rhwydweithiau nhw.

Os ydych chi am drafod unrhyw eitem ar yr agenda yn fanylach, cysylltwch ag arweinydd eich sector. Os ydych chi angen manylion cyswllt arweinydd eich sector, cysylltwch â blwch negeseuon e-bost Gweinidogol y Môr a Physgodfeydd. (MarineandFisheriesMinisterialMailbox@gllyw.cymru)

Mae’r holl bapurau a grybwyllir isod wedi’u cynnwys fel atodiadau i’r cofnod hwn o’r cyfarfod.

## Negeseuon Allweddol ac Allbynnau

### Eitem 2: Pontio’r UE (diweddariad llafar)

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Amlinellodd Graham strwythur, y dulliau a’r cynnydd yn ymwneud â’r paratoadau ar gyfer gadael yr UE. | Ddim yn berthnasol |

### Eitem 3: Cofnodion a chamau gweithredu o’r cyfarfod blaenorol (papur 1)

| Pwyntiau allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Cofnodion o’r cyfarfod blaenorol y cytunodd holl aelodau’r Grŵp Llywio arnynt fel gwir cofnod cywir. Ystyriwyd fod yr holl gamau gweithredu wedi’u cwblhau. | Ddim yn berthnasol |

### Eitem 4: Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau Rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (papur 2):

| Negeseuon allweddol | Camau Gweithredu |
|---|---|
| Trafododd aelodau’r Grŵp Llywio’r Cynllun Gweithredu ar Flaenoriaethau drafft. Roedd aelodau’n gwerthfawrogi’r ymdrech a wnaed i lunio’r drafft.<br><br>Nododd trafodaeth fanwl ar bob adran awgrymiadau ar gyfer eu cynnwys yn y Fersiwn nesaf, gan gynnwys defnyddio ffeithluniau a diagramau i egluro a dangos rhywfaint o’r wybodaeth fwyaf cymhleth. Cytunwyd ail-weithio Adran 5 ac ystyried y fantais o heriau neu nodau tymor hirach, lefel uwch ar gyfer rheoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig i lywio cynllun gweithredol blynyddol. Cytunodd Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i drafod cysylltu camau gweithredu fel hyn. | 1. Llywodraeth Cymru a Cyfoeth Naturiol Cymru i ailweithio Adran 5.<br><br>2. RLJ i adolygu’r drafft gan ystyried sylwadau ac awgrymiadau a wnaed yn ystod y cyfarfod. Dosbarthu drafft diwygiedig i aelodau’r Grŵp Llywio erbyn 7 Rhagfyr ar gyfer derbyn sylwadau pellach. |

DRAFT

| | |
|---|---|
| Cytunwyd mai'r cam nesaf fyddai ailddrafftio'r Cynllun ar sail y sylwadau a wnaed a'i ddosbarthu i aelodau'r Grŵp Llywio ar gyfer eu sylwadau pellach. | |

<u>Eitem 5: Prosiect Cyfoeth Naturiol Cymru i Wella Adroddiadau Cyflwr ar Lefel Safle (diweddariad llafar)</u>

| **Negeseuon allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Cafodd aelodau'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ddiweddariad gan Cyfoeth Naturiol Cymru ar y prosiect i wella adroddiadau cyflwr nodweddion ar lefel safle.<br><br>• Mae adroddiadau dangosol ar sail nodweddion wedi'u llunio yn cynwys 71 nodwedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig ar draws 11 safle.<br>• Mae un adroddiad wedi'i lunio i gynnwys pob nodwedd Ardal Gwarchodaeth Arbennig morol yng Nghymru.<br>• Yn dilyn ymarfer sicrhau ansawdd gan y Cyd-bwyllgor Cadwraeth Natur gwnaed mân newidiadau i'r adroddiadau.<br>• Mae'r adroddiadau yn disgwyl am gymeradwyaeth fewnol yn Cyfoeth Naturiol Cymru cyn eu cyhoeddi. Dylai hyn fod erbyn diwedd y flwyddyn galendr.<br>• Darparodd Cyfoeth Naturiol Cymru ddiweddariad ar gamau nesaf y prosiect, sy'n cynnwys adolygiad o ddulliau a ddefnyddir mewn mannau eraill i ddarparu asesiadau o gyflwr safleoedd a ffyrdd y gellir gwella'r broses ar gyfer y fersiwn nesaf. | 3. MHE i ddosbarthu ei chyflwyniad a'r ddolen i'r adroddiadau dangosol ar ôl eu cyhoeddi, i aelodau'r Grŵp Llywio |

<u>Eitem 6: Adolygiad o gylch gorchwyl y Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig (papur 3)</u>

| **Negeseuon allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Trosglwyddwyd yr eitem hon i'r cyfarfod nesaf a chytunodd y Grŵp Llywio ar hynny. | 4. RLJ i'w hychwanegu at agenda'r |

DRAFT

| | |
|---|---|
| | cyfarfod nesaf. |

Eitem 7: Unrhyw Fater Arall

| **Pwyntiau allweddol** | **Camau Gweithredu** |
|---|---|
| Cododd aelodau'r Grŵp Llywio ar Reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig yr eitemau canlynol:<br><br>• Cynigiwyd Awdurdod Porthladd Aberdaugleddau fel lleoliad ar gyfer y dyfodol (JM).<br>• Gofynnwyd am eitem ar yr ymchwiliad i reoli Ardaloedd Morol Gwarchodedig ar gyfer y cyfarfod nesaf.<br>• Cytunodd HB i ddosbarthu ei chyflwyniad i Brosiect Gwella Cyflwr Ardaloedd Morol Gwarchodedig Cyfoeth Naturiol Cymru. | HB i ddosbarthu ei chyflwyniad i aelodau'r Grŵp Llywio.<br><br>RLJ i ychwanegu adroddiad Y Llanw'n Troi at agenda'r cyfarfod nesaf.<br><br>Yn sgil pwysau amser, RLJ i ddosbarthu diweddariad ysgrifenedig at yr Eitemau i'w Nodi.<br><br>RLJ i ddosbarthu DoodlePoll ar gyfer dyddiadau posibl ar gyfer y cyfarfod nesaf. |